

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mawrth 5ed, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr John Williams, (Cadeirydd); Trefor Wyn Jones; Dafydd Williams; Brian W Ifans; Alwen Evans; Marian Evans; Aled Lloyd Evans; Thomas Prys Jones a'r Clerc.

1. Ymweliad Mr Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig i gyflwyno ac ateb cwestiynau ar yr ymateb gafwyd i'r holiaduron ar angen tai lleol yn Ward Llanarmon a Llanystumdwy. Croesawyd Mr Hughes ac aeth drwy'r adroddiad ac ateb cwestiynau fel yr oeddent yn codi. Bydd Mr Hughes yn dilyn y wybodaeth am yr wyth oedd wedi rhoi eu henwau a'u cyfeiriadau, eu bod yn dymuno symud yn ardal Chwilog a Llanystumdwy. Adroddiad ddrafft oedd hon a phenderfynwyd derbyn yr adroddiad heb wneud unrhyw newidiadau. Felly bydd copi terfynol yn dilyn yn fuan. Diolchwyd i Mr Hughes am ei waith manwl.

2. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Elis Gwyn Jones; Anwen Jones; Gwilym M Thomas; Margaret Griffith; William Ifor Hughes; Ifor Wyn Davies, (Is Gadeirydd) a Naomi Jones.

3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Chwefror 5ed, 2015 o'r Cyngor a chyfarfod Pwyllgor Cyflog ac Amodau Gwaith y Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol gyfarfu ar Chwefror 5ed, 2015.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

6. Cyngor Gwynedd.

1. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn – Y Cynllun Adnau. Roedd y Panel sydd wedi bod yn paratoi ymateb i'r uchod yn cyflwyno eu sylwadau. Penderfynwyd derbyn y sylwadau hynny a'u hanfon ymlaen cyn Mawrth 31ain, 2015 a diolchwyd i'r Panel am eu gwaith.

2. Copi o ymateb Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd i lythyr Robert Ll Pierce, Morfa Glas, Llanfrothen, Penrhyndeudraeth. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

3. Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, rhaglen waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd, mis Mawrth 2015; gwaith agor ffosydd rhwng Llanybi a Llecheiddior, i gychwyn 03/03/15 tan 16/03/15 – rheolaeth traffig rhoi/cymryd. Derbyniwyd.

7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:

1. Cais rhif: C14/1219/41/LL – Sied amaethyddol i wartheg gyda storfa slyri tanddaearol; Fferm Ty Hir, Llanybi. Cefnogwyd.

2. Cais rhif: C15/0100/41/TR – Uwchraddio llinell drydan; Tir rhwng Tyddyn Cethin a Tyddyn Morthwyl, Cricieth. Penderfynwyd cefnogi.

3. Cais rhif: C15/0150/41/LL – Adeiladu clwydfa ystlumod; Afonwen Laundry, Chwilog. Cefnogwyd.

8. Un Llais Cymru;

a. Cwrs yn yr Institiwt, Caernarfon ddydd Iau, Mawrth 12fed ar *Gyfarfod y Cyngor*. Doedd neb awydd mynd ar y cwrs yma.

b. Gohebiaeth rhwng y Clercod yn gofyn am Bolisi Iaith Un Llais Cymru. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth gyda'r sylw bod y Cyngor yn cefnogi safbwynt y Clercod sef

cwyn am ddiffyg ymateb yn yr iaith Gymraeg wrth gysylltu gyda swyddfa Un Llais Cymru

9. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

Llanystumdwy

Chwilog

Cafwyd cwyn bod ceir a lorïau yn parcio ar y lôn tu allan i olchdy Afonwen. Penderfynwyd gofyn i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd gysylltu gyda'r cwmni ynghylch hyn.

Llangybi

1. Datblygiad yng nghoedwig Ynys Creua, Llangybi, gweler safle we – woodlandbond.co.uk. Penderfynwyd anfon i Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i ddatgan pryder y Cyngor yma, i ofyn a ydynt yn ymwybodol o'r datblygiad, oes angen caniatad cynllunio a beth am garthffosiaeth ar y safle?
2. Bwrdd gwybodaeth mawr y Lôn Goed ger Coed Cae Du wedi cwmpo, - ei goesau wedi pydru. Angen ei ail-godi cyn iddo ddirywio ymhellach. Penderfynwyd anfon at Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd i ofyn i'r arwydd gael ei atgyweirio rhag blaen.
3. Polion BT Llangybi yn dal heb eu symud. Penderfynwyd cysylltu unwaith eto gyda'r Cyngor Sir, bod y pythefnos/dair wythnos yr addawyd eu symud wedi hen fynd heibio.
4. Nodi bod y Cyngor Sir wedi gwneud gwaith da sydyn ar y ffosydd rhwng Llangybi a Phlas Llecheiddior. Penderfynwyd anfon i ddiolch i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Pencaenewydd

10. Materion heb gael ymateb iddynt. Dim y tro yma.
11. Arolwg o gyflwr llwybrau'r gymuned. Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr fwrw golwg yn eu wardiau cyn y Cyngor nesaf i weld yn union pa lwybrau sydd angen sylw.
12. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor. Penderfynwyd gofyn i Mr Gareth Jones, Caeathro wneud y gwaith unwaith eto.
13. Cae Chwarae Llangybi; cytundeb dorri gwellt am dair blynedd. Penderfynwyd gofyn am brisiau gan Atkin Groundworks Ltd., Llanarmon; Gardderchog, Morfa Nefyn; a Mr Clifford Hughes, Llangybi; pedwar toriad y tymor a chlirio, torri a chlirio drain tu ôl i'r ffens a glanhau'r matiau fel bo angen.
14. Llythyrau/e byst yn diolch am gymorth ariannol oddi wrth:
 1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.
 2. Mynwent Capel Helyg.
 3. Theatr Bara Caws.
 4. Elusen Dystonia Dwyfor.
 5. Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn 2015.
 6. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili 2015.
 7. Dawns i Bawb.

8. Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru.
 9. Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru.
 10. Mynwent Newydd Llanystumdwy.
 11. Shelter Cymru.
 12. Ysgol Gynradd Llangybi.
 13. Ysgol Gynradd Chwilog.
 14. Ysgol Gynradd Llanystumdwy.
- Penderfynwyd eu derbyn un ag oll.

Heb glywed dim oddi wrth Gymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

19. Oherwydd amgylchiadau penderfynwyd cynnal cyfarfod mis Ebrill ar nos Iau, Ebrill 16eg a chyfarfod mis Mai ar nos Iau Mai 14eg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.